# Cynllun marcio Uned 2

| Marc | AA1 - Gwrando |
|---|---|
| 8 - 10<br>**Band 5** | • Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn effeithiol iawn<br>• Deall cyfraniadau eraill mewn manylder<br>• Ymateb yn llawn i'r dasg gyda chyfraniadau perthnasol a threiddgar |
| 6 – 7<br>**Band 4** | • Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn effeithiol<br>• Deall cyfraniadau eraill mewn manylder<br>• Ymateb yn weddol lawn i'r dasg gyda chyfraniadau perthnasol |
| 4 – 5<br>**Band 3** | • Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn ddigonol<br>• Deall cyfraniadau eraill mewn peth manylder<br>• Ymateb i'r dasg gyda rhai cyfraniadau elfennol |
| 1 – 3<br>**Band 2** | • Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn achlysurol<br>• Deall rhai o gyfraniadau eraill<br>• Ymdrech i ymateb i'r dasg gydag ambell i gyfraniad syml. |
| 0<br>**Band 1** | • Amhriodol neu heb ymateb |

| Marc | AA2 - Siarad |
|---|---|
| 33 – 40<br>**Band 5** | • Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn<br>• Defnyddio ystod eang o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn hynod o lwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson<br>• Defnyddio ystod eang o batrymau iaith syml yn gywir a defnyddio ystod o wahanol amserau'r ferf<br>• Defnyddio cywair priodol, ynganu a goslefu'n hynod o glir |
| 25 – 32<br>**Band 4** | • Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn<br>• Defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn llwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson<br>• Defnyddio ystod o batrymau iaith syml yn gywir a defnyddio gwahanol amserau'r ferf<br>• Defnyddio cywair priodol, ynganu a goslefu'n glir |
| 17 – 24<br>**Band 3** | • Cyfathrebu a rhyngweithio gyda pheth hyder ac ychydig o gymhelliant gan gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn yn eitha llawn<br>• Defnyddio strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud cyfraniadau<br>• Defnyddio patrymau iaith syml yn gywir ac yn amrywio peth ar amser y ferf<br>• Defnyddio cywair priodol, ynganu a goslefu'n weddol glir |
| 9 – 16<br>**Band 2** | • Cyfathrebu a rhyngweithio gydag ychydig o gymhelliant gan gyfleu peth gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau peth barn yn weddol glir<br>• Defnyddio rhai strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud rhai gyfraniadau<br>• Defnyddio patrymau iaith syml yn eitha cywir ac amrywio ambell amser y ferf<br>• Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n glir |
| 1 – 8<br>**Band 1** | • Ymateb i gymhelliant uniongyrchol drwy roi ambell ddarn o wybodaeth a mynegi ambell farn<br>• Defnyddio ambell strategaeth i gefnogi a chynnal sgwrs gan wneud ambell gyfraniad<br>• Defnyddio ambell batrwm iaith syml yn weddol gywir<br>• Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n weddol glir |
| 0 | • Amhriodol neu heb ymateb. Nid yw'r wybodaeth ofynnol yn cael ei chyfathrebu o gwbl |